CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN CHWARAEON BETWS YN RHOS AM 7.00y.h. NOS LUN, 12fed MAI, 2025.

1. **CROESO**
   Croesawodd y Cadeirydd John EVANS pawb i'r cyfarfod. Diolchodd i bawb am eu gwaith caled a'i cymorth.

2. **YN BRESENNOL**
   Cynghorion John EVANS, Irwedd GRIFFITHS, Glena HUMPHREY, D Gwyn JONES, Goronwy R WILLIAMS, Hefin WILLIAMS, Clerc – Mr Mel Jones a Gwawr Thomas fel arsylwr.

3. **YMDDIHEURIADAU**.
   Cynghorion Gwenda DAVIES, Bryn JONES, Gethin OWEN a Cynghorydd Sir Ifor LLOYD

4. **MUNUDAU**

   I gadarhau, cymeradwyo ac I arwyddo cofnodion y cyfarfod blynyddol diwethaf a gynhaliwyd ar y 13fed o Fai 2024. Cafwyd y munudau ei cynnig yn gywir gan y Cynghorydd Goronwy Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Hefin WILLIAMS.

5. **MATERION YN CODI**

   Nid oedd unrhyw fater yn codi.

6. **ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2025 – 2027**

   Etholwyd y Cynghorydd Glena Humphrey yn unfrydol i wasanaethu fel Cadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd – 2025 - 2027

7. ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2025 – 2027

Etholwyd y Cynghorydd Gethin Owen yn unfrydol i wasanaethu fel Is Gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd 2025 – 2027. (Nid oedd Cynghorydd Owen yn bresennol ond roedd wedi siarad hefo'r Clerc ac yn fodlon bod yn Is Gadeirydd)

8. CYFETHOL AELOD NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED

Mae'r modd o lenwi'r lle gwag ar y Cyngor Cymuned yn angen dilyn proses neilltuol. Mae proses ysgrifennedig yn ei le.

9 ETHOL CYNYRCHIOLYDD I BERTHNASU GYDA'R CYRFF A'R CYMDEITHASAU CANLYNOL – 2025 - 2027

i. Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Betws yn Rhos – y Cynghorydd Hefin WILLIAMS (LEA) a'r Cynghorydd Glena HUMPHREY

ii. Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Plas – y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS

iii. Neuadd y Pentref Betws yn Rhos – y Cynghorydd Gethin OWEN

iv. Canolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos – y Cynghorydd D Gwyn JONES

v. Cylch Meithrin – y Cynghorydd Hefin WILLIAMS

vi. Un Llais Cymru – y Cynghorydd Glena HUMPHREY

vii. Mynwent Betws yn Rhos – y Cynghorydd Bryn JONES

viii. Y Neuadd Chwaraeon – y Cynghorydd John EVANS

11. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024–2025 wedi'i baratoi gan y Clerc ac fe'i darllenwyd gan y Cynghorwyr. Cytunwyd y dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned.

12. UNRHYW FATER ARALL

Dim

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 7.40y.h.

CADEIRYDD: Glena Humphrey

Clerc: Mel JONES

Dyddiad :11/5/2026